Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad ar reoliadau arfaethedig sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a phedair dogfen ganllaw

Atodiad 3

**Drafft**

***Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru***

Diben Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yw gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhan ganolog o becyn integredig o is-ddeddfwriaeth, polisïau a dogfennau cyngor cynllunio newydd a diwygedig, a chanllawiau arferion da ar amrywiaeth eang o bynciau. Byddant, gyda'i gilydd, yn helpu i sicrhau bod newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu rheoli'n ofalus yn unol â'r athroniaeth a'r arferion cyfredol ym maes cadwraeth.

Mae'r ddogfen ddrafft hon yn rhan o'r ymgynghoriad deuddeg wythnos ar gynigion i gyflwyno rheoliadau ac amryfal ganllawiau sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Bydd yn dod i ben ar 13 Ionawr 2017. Mae'r ddogfen ymgynghori, y ffurflen ymateb a'r holl ganllawiau drafft cysylltiedig ar gael ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y we: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/

Wrth baratoi'r ddogfen hon, aed ati ar yr un pryd i ddiwygio pennod 6, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' yn *Polisi Cynllunio Cymru* ac i lunio *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.* Byddai'n fuddiol darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau hynny.

Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar bennod 6 o *Polisi Cynllunio Cymru* i ben ar 13 Mehefin 2016. Mae'r bennod ar gael o hyd ar dudalen yr ymgynghoriad ar y we: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/newidiadau-arfaethedig-i-bolisi-cynllunio-cymru-pennod-6-yr-amgylchedd-hanesyddol. Mae unrhyw gyfeiriadau yn y ddogfen hon at *Polisi Cynllunio Cymru* yn cyfeirio at y fersiwn honno. Bydd fersiwn

terfynol o Bennod 6, gan gynnwys unrhyw newidiadau a fydd yn codi o'r ymgynghoriad, yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar Nodyn Cyngor Technegol 24 i ben ar 3 Hydref 2016 ac mae'r gwaith o ddadansoddi'r ymatebion wedi dechrau. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael o hyd ar dudalen yr ymgynghoriad ar y we: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/nodyn-cyngor-technegol-arfaethedig-24-yr-amgylchedd-hanesyddol. Mae unrhyw gyfeiriadau yn y ddogfen hon at Nodyn Cyngor Technegol 24 yn cyfeirio at y fersiwn honno. Disgwylir y bydd fersiwn terfynol o'r nodyn cyngor technegol, gan gynnwys unrhyw newidiadau a fydd yn codi o'r ymgynghoriad, yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2017.

19 Hydref 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

19 Hydref 2016

*DRAFFT*

# Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru

© Hawlfraint y Goron 2016

# Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru

## Datganiad o Ddiben

Mae *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* yn ategu *Polisi Cynllunio Cymru* — Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol a *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*.

Mae *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* yn nodi egwyddorion cyffredinol i'w dilyn wrth ystyried newidiadau a all gael effaith ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Mae'n egluro statws y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru a'i lle yn y system gynllunio, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau perchenogion, awdurdodau cynllunio lleol, cymdeithasau amwynderau a Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw). Er bod y gofrestr yn statudol, nid yw'r broses gofrestru yn cyflwyno unrhyw gyfundrefnau caniatâd newydd.

Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu'n bennaf at berchenogion parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, ac asiantiaid sy'n gweithredu ar eu rhan, er mwyn eu helpu i ddeall goblygiadau bod yn berchen ar barc neu ardd hanesyddol sy'n gofrestredig a rheoli newidiadau sy'n effeithio arno/arni. Dylai hefyd helpu perchenogion ac asiantiaid i ystyried *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth)* Cadw er mwyn sicrhau newid sensitif o ansawdd uchel.

Gall perchenogion a rheolwyr hefyd ddefnyddio *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* fel canllaw arfer gorau ar ofalu am safleoedd cofrestredig. Mae'r egwyddorion a'r arferion hefyd yn berthnasol i'r holl barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru, p'un a ydynt yn gofrestredig ai peidio.

Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ddefnyddio'r canllawiau hyn, ynghyd â *Pholisi Cynllunio Cymru* — Pennod 6, Yr Amgylchedd Hanesyddol, *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* ac *Egwyddorion Cadwraeth* wrth ystyried effaith ceisiadau cynllunio unigol ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, ac ar eu lleoliadau.

## Cynnwys

**Ffeithiau Cyflym** 1
**Cyflwyniad** 1

**1. Gwarchod Parciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru** 2
1.1 Beth yw'r Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru? 2
1.2 Beth yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru? 3
1.3 Sut y caiff parciau a gerddi hanesyddol eu hychwanegu at y gofrestr? 4
1.4 A allaf apelio neu ofyn am adolygiad? 4
1.5 A fydd y ffaith fy mod ar y gofrestr yn cyfyngu ar yr hyn y gallaf ei wneud? 4
1.6 Ystyriaethau Eraill 5
1.6.1 Caniatâd Adeilad Rhestredig 5
1.6.2 Caniatâd Heneb Gofrestredig 6
1.6.3 Dynodiadau Eraill 6
1.7 Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth 7

**2. Rheoli eich Parc neu'ch Gardd Hanesyddol Gofrestredig yng Nghymru** **7**
2.1 Deall arwyddocâd eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig 7
2.2 Rheoli newid i'ch parc neu ardd hanesyddol gofrestredig 8
2.3 Arferion rheoli da 9
2.3.1 Lleoliad 9
2.3.2 Golygfeydd 10
2.3.3 Cynllun 11
2.3.4 Mynedfeydd a Llwybrau 11
2.3.5 Nodweddion Ffiniau Hanesyddol 11
2.3.6 Strwythurau Adeiledig 12
2.3.7 Nodweddion Dŵr 13
2.3.8 Plannu 15
2.3.9 Dogfennu a Chofnodi 17

**3. Newid yn yr Hinsawdd** 17

**4. Cyfleoedd Eraill** 18
4.1 Cyllid 18
4.2 Addysg a Sgiliau Treftadaeth 18
4.3 Mynediad i'r Cyhoedd 18

Atodiad: Dod o Hyd i Wybodaeth am eich Parc neu'ch Gardd Hanesyddol 20
Rhagor o Wybodaeth 21
Cysylltiadau 23

## Ffeithiau Cyflym

- Gall dealltwriaeth dda o arwyddocâd eich parc neu'ch gardd hanesyddol sy'n gofrestredig helpu i lywio eich cynigion er mwyn sicrhau eich bod yn gallu cadw'r hyn sy'n arbennig am y parc neu'r ardd.
- Mae parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn adnodd cyfyngedig i'w drysori a'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Gall newid fod yn ddymunol neu'n angenrheidiol, ond mae angen ei reoli'n dda.
- Gall deall eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig eich helpu i leihau unrhyw niwed a manteisio i'r eithaf ar newidiadau er mwyn cadw a gwella'r ardd.
- Efallai y bydd yn rhaid ichi addasu'r ffordd yr ydych yn mynd ati i reoli'ch parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig oherwydd newid na ellir ei osgoi, megis effaith y newid yn yr hinsawdd.

## Cyflwyniad

Mae parciau a gerddi hanesyddol yn rhan o hunaniaeth genedlaethol Cymru. Maent yn cyfoethogi gwead a phatrwm ein tirweddau ac maent yn gofnod gwerthfawr o newid cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Mae llawer ohonynt yn cynnig gwerth cadwraeth eithriadol ar gyfer bywyd gwyllt, yn ogystal â chyfleoedd hamdden i'r cyhoedd, sy'n cyfrannu at les cymunedau lleol a'n heconomi drwy dwristiaeth. Fel rhywbeth sy'n rhoi mwynhad a chyfleoedd dysgu, a rhwydwaith gwerthfawr o fannau gwyrdd, mae gan ein parciau a'n gerddi hanesyddol ran bwysig i'w chwarae wrth adeiladu Cymru sy'n fwy iach a gwyrdd.

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig nid yn unig yn bwysig ichi, ond eu bod hefyd yn bwysig i'ch cymuned leol ac i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfundrefnau cydsynio newydd yn gysylltiedig â'r broses gofrestru statudol. Bydd parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, a'u lleoliadau, yn parhau i gael eu gwarchod drwy'r system gynllunio. Mae hynny'n golygu bod awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried yr arwyddocâd sydd i barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a'u lleoliadau o ran treftadaeth wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

Fodd bynnag, nid yw cofrestru yn atal newid. Er bod eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig yn ased gwerthfawr ac unigryw, mae'n debyg eu bod eisoes wedi newid dros amser, ac efallai y bydd angen ichi eu newid ymhellach. Mae a wnelo cadwraeth â rheoli newid yn ofalus. Mae hynny'n golygu dod o hyd i'r ffordd orau o warchod a gwella nodweddion arbennig eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig er mwyn i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol fedru gwerthfawrogi a mwynhau'ch parc neu'ch gardd.

## 1. Gwarchod Parciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru

Mae parciau a gerddi hanesyddol yn adnodd bregus a chyfyngedig y gellir ei niweidio neu ei golli'n hawdd. Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o'u harwyddocâd ac annog y sawl sy'n ymwneud â'r gwaith o'u rheoli i'w trin fel mannau gwerthfawr a nodedig. Mae hyn yn cynnwys perchenogion, awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru.

### 1.1 Beth yw'r Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru?

Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal cofrestr gynhwysfawr o barciau a gerddi hanesyddol sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru. Yn ymarferol, rydym ni — Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) — yn cyflawni'r dyletswyddau hyn ar ran Gweinidogion Cymru. Gellir ychwanegu safleoedd at y gofrestr neu eu tynnu oddi arni a gellir diwygio cofnodion safleoedd. Mae'r wybodaeth ar y gofrestr yn sail ar gyfer rheoli newid mewn modd cynaliadwy, yn bennaf drwy'r system gynllunio.

Cyhoeddwyd y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru gyntaf mewn chwe chyfrol sirol rhwng 1994 a 2002 fel rhan o'r *Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig.* Cyhoeddwyd cofrestr ategol o 14 o safleoedd ychwanegol yn 2007. Ers y dyddiad hwnnw, mae cofnodion newydd wedi'u nodi a bellach, mae bron 400 o safleoedd ar y gofrestr.

Mae'r safleoedd ar y gofrestr yn amrywio o ran eu dyddiad o'r cyfnod canoloesol i ganol yr ugeinfed ganrif. Maent yn amrywio o ran arddull, o barciau ceirw canoloesol, parciau ffurfiol a pharciau tirwedd, i ffermydd arbrofol, tirweddau ysbytai a gwallgofdai, mynwentydd, gerddi trefol a pharciau cyhoeddus. Ceir cyflwyniad da i hanes cronolegol parciau a gerddi yng Nghymru yn *Historic Gardens of Wales* (1992) gan Elisabeth Whittle.

Er bod ystadau gwledig yn cyfrif am ran fawr o'r gofrestr, yr hyn sy'n sy'n uno pob parc a gardd hanesyddol gofrestredig yw eu gwerth eithriadol i Gymru. Mae pob un ohonynt yn ffynhonnell wybodaeth unigryw am y gorffennol: mae i bob parc a gardd hanesyddol gofrestredig hanes unigryw. Efallai fod ynddynt dystiolaeth werthfawr ynghylch sut a ble y cawsant eu creu, sut y cawsant eu defnyddio, a sut maent wedi newid dros amser.

Mae gwybodaeth ddiweddar am bob parc a gardd hanesyddol gofrestredig ar gael yn Cof Cymru – cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol Cymru.[1]

---

[1] Cof Cymru – http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy
Bydd parciau a gerddi hanesyddol yn cael eu cynnwys yn Cof Cymru yn ystod 2017

### 1.2 Beth yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru?

Mae parciau a gerddi hanesyddol o ddiddordeb hanesyddol arbennig pan fyddant yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- yn dangos rhyw agwedd benodol ar hanes gerddi, parciau, tiroedd wedi'u cynllunio, tirweddau addurniadol wedi'u cynllunio a mannau hamdden, neu hanes garddio, tirweddu addurniadol neu arddwriaeth
- bod ganddynt gysylltiadau hanesyddol pwysig (er enghraifft, ag unigolyn neu ddigwyddiad penodol)
- bod ganddynt werth fel grŵp ar y cyd ag adeiladau neu dir arall a bod y gwerth grŵp ei hun o ddiddordeb hanesyddol, er enghraifft, efallai eu bod yn lleoliad hanesyddol ar gyfer adeilad o ddiddordeb hanesyddol.

Gall parciau neu erddi hanesyddol cofrestredig fod yn un o’r isod:

- gerddi
- parciau
- tiroedd wedi'u cynllunio
- tirweddau addurniadol wedi'u cynllunio
- mannau hamdden

Weithiau, gall cofrestriad gynnwys adeiladau, dŵr neu dir sydd gerllaw neu’n gyfagos.

Mae pob cofnod yn y gofrestr yn cynnwys map sy'n nodi maint yr ardd neu'r parc, a golygfeydd o bwys (gweler adran 2.3.2). Mae'r ffin yn pennu'r holl ardal yr ystyrir ei bod o bwys ac mae'n seiliedig ar ein gwaith ymchwil. Nid yw ystyriaethau megis pwy sy’n berchen ar y tir ar hyn o bryd yn effeithio ar y fordd yr eir ati i bennu’r ffin. Rydym yn defnyddio dogfennau a mapiau hanesyddol, ynghyd â thystiolaeth a gesglir yn ystod gwaith maes, i bennu ffin gardd neu barc. Weithiau, bydd nodweddion fel waliau a gatiau yn dangos yn glir lle y mae’r ffin. O dan amgylchiadau eraill, lle mae'r dystiolaeth yn llai clir, rydym yn defnyddio barn broffesiynol i bennu llinell fwyaf rhesymegol y ffin.

Caiff parciau neu erddi hanesyddol cofrestredig eu graddio mewn system sy'n debyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer adeiladau rhestredig (I, II*, II). Mae'r graddau'n dynodi'r rhinweddau canlynol:

| | |
|---|---|
| Gradd I | parciau a gerddi sydd o ddiddordeb eithriadol o ystyried eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol gyda'i gilydd. |
| Gradd II* | parciau a gerddi sydd o ansawdd gwych o ystyried eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol gyda'i gilydd. |
| Gradd II | parciau a gerddi sydd o ddiddordeb arbennig o ystyried eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol gyda'i gilydd. |

### 1.3 Sut y caiff parciau a gerddi hanesyddol eu hychwanegu at y gofrestr?

Gallwn ychwanegu safleoedd newydd at y gofrestr unrhyw bryd ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru a ddisgrifir yn adran 1.2. Gellir nodi safleoedd mewn nifer o ffyrdd yn cynnwys drwy ein hymchwil ein hunain a thrwy awgrymiadau gan awdurdodau cynllunio lleol, sefydliadau treftadaeth eraill, aelodau o'r cyhoedd a pherchenogion parciau a gerddi hanesyddol. Rydym yn croesawu enwebiadau ar gyfer y gofrestr ond mae angen inni gael gwybodaeth sy'n dangos bod safleoedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru.

Pan fyddwn yn fodlon bod parc neu ardd hanesyddol yn bodloni'r meini prawf, byddwn, fel arfer, yn ymgynghori â pherchenogion a meddianwyr y safle, ynghyd â'r awdurdod cynllunio lleol ac Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru, cyn i'r broses gofrestru fynd rhagddi. Yn aml, bydd mewnbwn tirfeddianwyr a rheolwyr sy'n adnabod y safle yn dda yn amhrisiadwy i'n dealltwriaeth o'i arwyddocâd. Mae hefyd yn rhoi cyfle inni egluro'n llawn oblygiadau cofrestru ac ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi. Felly, byddwn yn gwneud pob ymdrech i ymgynghori â phob perchennog a meddiannydd, ond ni fydd hynny'n bosibl bob amser, yn enwedig ar gyfer safleoedd mawr sydd â sawl perchennog.

Weithiau, os bydd parc neu ardd hanesyddol mewn perygl, efallai na fyddwn yn gallu ymgynghori'n llawn cyn y broses gofrestru ond byddwn yn sicrhau y caiff y perchennog ei hysbysu cyn gynted â phosibl.

### 1.4 A allaf apelio neu ofyn am adolygiad?

Byddwn yn ystyried apelau yn erbyn penderfyniadau i gofrestru parciau a gerddi hanesyddol a cheisiadau i adolygu cofrestriadau presennol, gan gynnwys gradd. Er mwyn inni allu ystyried apêl neu adolygiad, rhaid ichi naill ai ddangos bod camgymeriad wedi'i wneud yn ystod y broses gofrestru neu gyflwyno gwybodaeth newydd sy'n dangos nad yw'r safle, neu ran ohono, yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru na meini prawf y gradd a roddwyd. Cyn ysgrifennu atom, mae'n syniad da cael cyngor gan arbenigwr sydd â gwybodaeth arbenigol am y broses o gofrestru parciau a gerddi hanesyddol.

### 1.5 A fydd y ffaith fy mod ar y Gofrestr yn cyfyngu ar yr hyn y gallaf ei wneud?

Yn wahanol i restru neu gofrestru, nid oes unrhyw gyfundrefn cydsynio ychwanegol yn gysylltiedig â chofrestru ac, fel arfer, nid ydym yn ymwneud â'r broses o reoli a chynnal a chadw parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig o ddydd i ddydd. Yn hytrach, maent, gan amlaf, yn cael eu gwarchod drwy'r system gynllunio.

Dylai awdurdodau cynllunio lleol warchod a chadw parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, a'u lleoliadau. Er mwyn gwneud hynny, dylent ddatblygu polisïau yn eu cynlluniau datblygu lleol a fydd yn cyfrannu at y

broses o'u gwarchod a'u gwella; er enghraifft, gall polisi nodi y dylai cynigion datblygu sy'n effeithio ar barciau neu erddi hanesyddol cofrestredig fod yn eu gwarchod, neu lle y bo'n briodol, eu gwella. Pan fydd awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio, dylai effaith datblygiad arfaethedig ar barc neu ardd hanesyddol neu ar ei leoliad fod yn ystyriaeth berthnasol. Ceir rhagor o wybodaeth yn *Polisi Cynllunio Cymru*, Pennod 6 – Yr Amgylchedd Hanesyddol, paragraffau 6.4.9 a 6.5.24.
Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â ni am geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol neu ar eu lleoliadau.

Yn hytrach nag atal newid, nod y broses warchod yw amlygu arwyddocâd y parc neu'r ardd hanesyddol gofrestredig, fel y bo modd ystyried hynny wrth lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau datblygu.

Cyn paratoi cais cynllunio, dylech ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar y parc neu'r ardd hanesyddol gofrestredig, ac ar y lleoliad, gan gynnwys golygfeydd o bwys. Bydd angen ichi roi digon o wybodaeth i'r awdurdod cynllunio lleol fedru asesu effaith debygol eich cynigion, ond bydd angen i'r wybodaeth honno fod yn gymesur. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried eich cynlluniau hirdymor ar gyfer y safle er mwyn ichi osgoi datblygiad tameidiog neu ad hoc a all niweidio ei gymeriad hanesyddol dros amser. Efallai y byddwch hefyd am ystyried gwella'r safle drwy ddileu strwythurau amhriodol.

Rydym yn argymell y dylech gynnal trafodaethau gyda swyddog cynllunio a swyddog cadwraeth yr awdurdod lleol cyn ichi fynd ati i wneud cais. Gall yr awdurdod cynllunio lleol ein gwahodd i roi cyngor ar eich datblygiad arfaethedig fel nad yw'n cael effaith andwyol ar y parc a'r ardd gofrestredig. Pan fyddwch yn cyflwyno cais datblygu sy'n debygol o gael effaith ar barc neu ardd hanesyddol gofrestredig, neu ar eu lleoliad, rydym yn argymell y dylech gynnwys datganiad o effaith ar dreftadaeth gyda'ch dogfennau ategol (gweler adran 2.2).

Mae Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru yn gorff da i droi ato er mwyn cael gwybodaeth am erddi hanesyddol yng Nghymru ac mae'n bosibl y bydd yn gallu cynnig cyngor ichi am y newidiadau arfaethedig cyn ichi gyflwyno'ch cais am ganiatâd cynllunio. Mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol yn ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru hefyd ynglŷn â cheisiadau a fydd yn effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol ac ar eu lleoliadau, gan gynnwys parciau a gerddi cofrestredig.

### 1.6 Ystyriaethau Eraill

Mae nifer o ystyriaethau eraill y mae angen ichi fod yn ymwybodol ohonynt, er nad ydynt yn ganlyniad i gofrestru.

#### 1.6.1 Caniatâd Adeilad Rhestredig

Efallai fod eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig yn cynnwys adeiladau neu nodweddion sy'n rhestredig oherwydd eu diddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Os ydych yn bwriadu gwneud gwaith a

all effeithio ar gymeriad strwythur rhestredig neu ar ei leoliad, bydd angen ichi wneud cais i'ch awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd adeilad rhestredig.

Rydym yn argymell y dylech geisio cyngor swyddog cadwraeth eich awdurdod cynllunio lleol ynghylch gwneud newidiadau i adeilad rhestredig cyn ichi wneud cais am ganiatâd. Dylech hefyd ystyried ei bod yn bosibl bod nodweddion hanesyddol nad ydynt yn rhestredig yn eu rhinwedd eu hunain yn cael eu cynnwys yn y dynodiad adeilad rhestredig, a hynny fel strwythurau cwrtil; er enghraifft, gall rheiliau neu waliau terfyn o amgylch tŷ rhestredig fod yn cael eu gwarchod fel rhan o gwrtil y tŷ.

Ceir rhagor o wybodaeth am wneud cais am ganiatâd adeilad rhestredig yn *Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig*.

### 1.6.2 Caniatâd Heneb Gofrestredig
Efallai fod eich parc neu'ch gardd hanesyddol sgofrestredig yn cynnwys nodweddion archaeolegol sydd wedi'u dynodi'n henebion cofrestredig. Bydd angen ichi ofyn am ganiatâd heneb gofrestredig er mwyn gwneud gwaith ar henebion, felly dylech ofyn inni am gyngor.

Ceir rhagor o wybodaeth am wneud cais am ganiatâd heneb gofrestredig yn *Rheoli Newidiadau i Henebion Cofrestredig yng Nghymru*.

### 1.6.3 Dynodiadau eraill
Efallai fod coed sy'n cael eu gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed yn eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig, mae'n bosibl bod iddynt statws ardal gadwraeth neu efallai fod amodau cynllunio'n gysylltiedig â nhw, felly mae'n bosibl y bydd angen ichi hysbysu'r awdurdodau neu geisio'r caniatâd priodol cyn dechrau ar unrhyw waith. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gall Rheoliadau Gwrychoedd 1997 fod yn gymwys i wrychoedd yn eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig. Rydym yn argymell y dylech geisio rhagor o gyngor gan eich awdurdod lleol ynghylch y dynodiadau hyn.

Mae gan barciau a gerddi hanesyddol werth mawr o ran bioamrywiaeth hefyd. Gellir cael cyngor ynghylch dynodiadau amgylcheddol naturiol — fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol — ac ynghylch dynodiadau bywyd gwyllt drwy gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd roi cyngor ynghylch dynodiad tirwedd cenedlaethol, fel Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r gofrestr o dirweddau hanesyddol. Os hoffech wneud cais am ganiatâd cynllunio er mwyn datblygu ar dir sydd wedi'i ddynodi fel hyn, dylech gysylltu â'ch awdurdod cynllunio lleol.

Mae'n bosibl y bydd angen trwydded cwympo coed neu drwydded rheoli coetir arnoch ar gyfer mathau penodol o waith mewn coetiroedd. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rhoi'r trwyddedau hynny ac efallai y bydd yn ymgynghori â ni ynglŷn â cheisiadau mewn parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Os ydych yn ystyried cwympo coed, mae'n syniad da ystyried effaith hynny ar eich parc neu'ch gardd hanesyddol, a cheisio cyfleoedd i wella'r safle drwy gynigion i ailblannu.

Efallai y bydd cynlluniau rheoli tir cynaliadwy, fel Glastir, yn ei gwneud yn ofynnol ichi fodloni safonau penodol ar gyfer gofalu am nodweddion hanesyddol, gan gynnwys parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Ymgynghorir â ni ynghylch ceisiadau Glastir Uwch a Glastir - Creu Coetir sy'n effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ac ar henebion. Mae Glastir hefyd yn cynnig cyfleoedd i wella parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig drwy ddewis opsiynau rheoli priodol a gwaith cyfalaf.

### 1.7 Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth

Os oes sawl adeilad rhestredig a/neu heneb gofrestredig yn eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig, efallai y byddwch am sefydlu cytundeb partneriaeth treftadaeth.

Nod cytundebau partneriaeth treftadaeth yw dod â pherchenogion, awdurdodau cydsynio a phartïon eraill â diddordeb at ei gilydd er mwyn llunio cynlluniau rheoli hirdymor ar gyfer asedau hanesyddol a'u lleoliadau. Bydd y cytundebau yn cwmpasu rhaglenni gwaith y cytunwyd arnynt ac yn ymgorffori caniatadau heneb gofrestredig a/neu ganiatadau adeilad rhestredig. Drwy ddileu'r angen i gyflwyno ceisiadau am ganiatadau unigol dro ar ôl tro, bydd y cytundebau gwirfoddol hyn yn arbed amser ac adnoddau i bawb dan sylw.

Gall cytundeb partneriaeth treftadaeth fod yn arbennig o ddefnyddiol os oes sawl perchennog neu barti â diddordeb.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gytundebau partneriaeth treftadaeth yn *Rheoli Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth yng Nghymru.*

## 2. Rheoli eich Parc neu'ch Gardd Hanesyddol Gofrestredig yng Nghymru

Mae parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn parhau i esblygu. Ni ellir eu rhewi mewn amser ac yn aml, mae angen cyflwyno newidiadau. Gall newidiadau gynnwys sawl math o weithgarwch yn amrywio o waith cynnal a chadw rheolaidd i waith newydd neu addasiadau. Gall newidiadau sy'n debygol o effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig neu ar eu lleoliadau effeithio ar eu harwyddocâd a'u cymeriad hanesyddol.

### 2.1 Deall Arwyddocâd eich Parc neu'ch Gardd Hanesyddol sy'n Gofrestredig

Mae'n bwysig deall bod parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn wahanol i asedau hanesyddol dynodedig eraill mewn nifer o ffyrdd:-

- maent yn aml yn cwmpasu ardaloedd mawr o dir, weithiau gyda nifer o berchenogion a chyfundrefnau rheoli gwahanol.
- mae strwythur cyffredinol parc neu ardd hanesyddol yn seiliedig ar amrywiaeth o elfennau naturiol ac elfennau o waith dyn sy'n amrywio o ran eu harwyddocâd ac sydd â gofynion rheoli gwahanol. Gall hyn gynnwys olion archaeolegol a strwythurau adeiledig, gwaith plannu

ffurfiol ac anffurfiol, parcdir a thir amaethyddol, coetir, nodweddion dŵr a nodweddion sy'n gysylltiedig â rheoli dŵr, a thirffurfiau naturiol ac artiffisial. Efallai y bydd rhai o'r nodweddion hyn yn cael eu gwarchod yn eu rhinwedd eu hunain fel adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig neu goed gwarchodedig.

- maent bob amser yn cynnwys elfen fyw a blannwyd ac sydd felly'n fyrhoedlog.
- mae eu helfennau, gan gynnwys gwaith plannu (bwriadol a damweiniol), nodweddion dŵr (rhai naturiol a rhai a gynlluniwyd) a nodweddion adeiledig hynafol (sydd hefyd yn gynefin i gen y cerrig a fflora a ffawna waliau), yn aml yn golygu bod i barciau a gerddi hanesyddol werth mawr o ran bioamrywiaeth.

Yn aml, ond nid bob amser, mae parciau a gerddi hanesyddol yn cynnwys sawl 'haen', a all adlewyrchu'r canlynol:

- newid yn y ffordd y cafodd tir ei ddefnyddio a'i reoli dros amser
- hinsoddau gwleidyddol, amgylcheddol neu economaidd yn y gorffennol
- newid mewn perchenogaeth
- newid mewn ffasiwn o ran dyluniad tirweddau
- datblygiadau technolegol
- darganfyddiadau garddwriaethol newydd.

Rydym yn argymell y dylech nodi arwyddocâd eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig cyn ichi hyd yn oed ystyried gwneud newidiadau iddi. Gall datganiad arwyddocâd eich helpu i gofnodi beth sy'n bwysig am y safle, pam ac i bwy.

Gall pob agwedd ar eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig fod yn rhan o'i stori a chyfrannu at arwyddocâd y parc neu'r ardd. Fodd bynnag, nid yw pob agwedd mor bwysig â'i gilydd o reidrwydd, a dylid ystyried pob un yn ôl ei rhinwedd ei hun. Bydd deall pam mae eich parc neu'ch g ardd hanesyddol sy'n gofrestredig o ddiddordeb hanesyddol arbennig a'r hyn sy'n bwysig am y parc neu'r ardd yn eich helpu i ofalu am y parc neu'r ardd.

Mae ein *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* yn esbonio mwy am sut i ddeall gwerth eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig o ran treftadaeth ac am sut i asesu arwyddocâd y parc neu'r ardd.

## 2.2 Rheoli Newid i'ch Parc neu'ch Gardd Hanesyddol Gofrestredig

Gall fod yn fuddiol ichi lunio cynllun rheoli cadwraeth er mwyn helpu i reoli newid yn effeithiol, yn enwedig os yw eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig yn safle mawr neu gymhleth iawn. Argymhellir y dylech gael arbenigwyr i baratoi eich cynlluniau ond dylent fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y safle. Gallwch ddefnyddio'r cynllun yn sail i'ch penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o reoli a chynnal y safle yn yr hirdymor.

Mae cynllun rheoli cadwraeth yn seiliedig ar ddealltwriaeth o’ch parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig ac mae’n cynnwys datganiad arwyddocâd. Mae hefyd yn nodi’r risgiau presennol a phosibl i'ch parc neu'ch gardd hanesyddol ac yn chwilio am gyfleoedd i wella'r parc neu'r ardd. Efallai y bydd angen ichi gydbwyso gofynion modern, fel meysydd parcio, gwaredu gwastraff neu arwyddion, gydag arwyddocâd hanesyddol y safle yn ogystal ag ystyried goblygiadau ariannol cynnal a chadw yn yr hirdymor.

Mae'r dadansoddiad hwn yn sail i'ch polisïau rheoli sy'n nodi sut y byddwch yn rheoli'r safle o ddydd i ddydd ac yn yr hirdymor. Mae cynllun rheoli cadwraeth yn ddull cyfannol hirdymor o reoli safle, sy'n atal newidiadau amhriodol ac ad hoc a all amharu ar gymeriad hanesyddol y safle. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn rhoi cyngor defnyddiol ynghylch paratoi cynlluniau rheoli cadwraeth, gan gynnwys datganiadau arwyddocâd.

P’un a oes gennych gynllun rheoli cadwraeth ar waith ai peidio, mae'n bwysig ystyried effaith eich cynigion ar gyfer newid ar arwyddocâd eich parc neu'ch gardd hanesyddol sy'n gofrestredig cyn ichi ddechrau ar y gwaith. Efallai y byddai’n fuddiol ichi geisio cyngor proffesiynol.

Mae'r adran nesaf sy'n sôn am arfer rheoli da yn egluro mwy am y mathau o newid y gallwch ddod ar eu traws. Efallai y byddwch yn gweld bod y broses o asesu effaith ar dreftadaeth yn eich helpu i nodi canlyniadau eich cynigion a chynllunio eich newidiadau er mwyn sicrhau'r effaith leiaf posibl.

O dan rai amgylchiadau, pan fydd angen caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig, efallai y gofynnir ichi gynnal asesiad o effaith ar dreftadaeth a chyflwyno datganiad o effaith ar dreftadaeth gyda'ch cais. Nid oes angen i asesiad o effaith ar dreftadaeth fod yn feichus, ond dylai fod yn gymesur â’r cynnig ac â’r arwyddâd treftadaeth. Ceir rhagor o wybodaeth am asesiadau a datganiadau o effaith ar dreftadaeth yn *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru.*

Os yw'n debygol y bydd angen ichi gael caniatadau lluosog adeilad rhestredig a heneb gofrestredig, efallai y byddwch am sefydlu cytundeb partneriaeth treftadaeth (gweler adran 1.7).

## 2.3 Arfer Rheoli Da

Mae'r adran hon yn amlinellu’r nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at arwyddocâd eich parc neu'ch gardd hanesyddol ac yn awgrymu’r arferion gorau ar reoli'r parc neu'r ardd mewn ffordd gynaliadwy.

### 2.3.1 Lleoliad

Yr hyn a olygir wrth leoliad yw’r amgylchedd lle y deellir, y profir ac y gwerthfawrogir eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig. Mae'n cynnwys y gydberthynas rhwng gofodau a strwythurau, rhwng tirweddau a gynlluniwyd a thirweddau naturiol, a rhwng defnyddiau esthetig ac iwtilitaraidd.

Yn aml, ystyrir mai'r lleoliad sy'n rhoi ansawdd esthetig neu weledol i le, ond mae hefyd yn cynnwys tawelwch a ffactorau eraill sy'n effeithio ar y synhwyrau, fel sŵn ac arogl. Gall cysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol, ieithyddol neu olygfaol fod yn ffactorau pwysig hefyd.

***Rheoli*** – Wrth ystyried newid, dylech fabwysiadu dull cyfannol o ddeall ei effaith bosibl ar leoliad.

Er enghraifft, ar ystad sy'n gysylltiedig â phlasty, mae'n bosibl bod y prif dŷ wedi'i leoli o fewn gerddi a thir ffurfiol lle mae hierarchaeth o adeiladau a strwythurau yn gysylltiedig â'r ystad. Mae'n bosibl bod y gerddi a'r tir ffurfiol yn cael eu hamgylchynu gan ystad ehangach o barcdir agored ac ardaloedd o goetir a ffermdir sy'n cael eu rheoli. Mae'r gerddi a'r ystad ehangach yn darparu'r lleoliad ar gyfer y tŷ. Y tu hwnt iddynt hwy, mae'r dirwedd wledig o amgylch yn darparu'r lleoliad ar gyfer y safle cyfan. Gallai'r effaith a gâi newid ar unrhyw un elfen arwain at ganlyniadau anfwriadol ar gyfer y lleoliad os na chaiff ei ystyried yn briodol.

Ceir rhagor o wybodaeth am leoliadau yn *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru.*

**2.3.2 Golygfeydd**

Gall fod gan olygfeydd ran bwysig iawn i'w chwarae yn eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig, yn gymaint felly fel y bo golygfeydd arwyddocaol yn cael eu cynnwys yn y cofnod ar y gofrestr. Efallai eu bod yn cyfrannu at ei arwyddocâd fel rhan o ddyluniad hanesyddol a ddylanwadodd ar y ffordd y gwerthfawrogid y parc neu'r ardd yn y gorffennol – a sut y'i gwerthfawrogir heddiw. Er enghraifft, efallai fod lleoliad a chyfeiriad adeiladau wedi'u dewis er mwyn manteisio ar y dirwedd a'r golygfeydd o amgylch. Efallai bod y gerddi a'r parcdir wedi'u dylunio a'u plannu'n ofalus er mwyn ategu'r lleoliad, i hoelio sylw ar olygfeydd o fewn y dirwedd a ddyluniwyd a/neu i fanteisio ar 'olygfeydd a fenthycir' y tu hwnt i ffin yr eiddo.

Gall golygfeydd dynnu sylw at y dirwedd, gan dywys y llygad ar hyd golygfa gul efallai, neu at adeilad neu glwstwr o goed yn y pellter canol. Gall golygfeydd hefyd dywys y llygad at olygfeydd panoramig o'r wlad o amgylch gyda mynyddoedd pell yn y cefndir, neu ar draws y môr i'r gorwel. Efallai fod gwerth hanesyddol i'r tirweddau ehangach hyn hefyd, a gellir eu cynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru.

***Rheoli*** – Dros amser, gellir colli neu beryglu golygfa. Gall hynny fod o ganlyniad i waith plannu amhriodol, gwaith datblygu, neu ddiffyg cynnal a chadw sydd wedi galluogi llystyfiant i dyfu ac amharu ar yr olygfa a fwriedir. Gall cyfundrefnau rheoli gwahanol hefyd arwain at golli golygfeydd hanesyddol, yn enwedig pan fydd parc neu ardd hanesyddol wedi'i hisrannu a bod mwy nag un perchennog.

Pan fyddwch wedi nodi cyfraniad y golygfeydd at arwyddocâd eich parc neu'ch gardd gofrestredig, efallai y gallwch agor a rheoli golygfeydd a fwriedir.

Bydd hynny, yn ei dro, yn gwella cymeriad hanesydd y safle a'i werth o ran treftadaeth, yn ogystal â'ch gwerthfawrogiad ohono.

**2.3.3 Cynllun**
Cynllun hanesyddol eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig sy'n darparu'r fframwaith ffisegol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch newid. Gellir ystyried cynllun fel y gydberthynas rhwng prif elfennau'r parc neu'r ardd – gofod agored, adeiladau a strwythurau eraill, planhigion, llwybrau a ffiniau. Gall dyluniad a/neu swyddogaeth bennu'r gydberthynas honno.

***Rheoli*** – Mae'n bwysig eich bod yn deall elfennau pwysig cynllun hanesyddol eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig ac yn dehongli eu hesblygiad. Bydd hynny’n eich helpu i wneud penderfyniadau rheoli deallus ac ymatebol heb beryglu'r arwyddocâd hanesyddol.

Mewn rhai achosion, pan fydd gan safle sawl perchennog a phan fydd o dan gyfundrefnau rheoli ar wahân, gall y cynllun hanesyddol fod yn anos ei ddehongli. Fel arfer, gall y cofnod yn y gofrestr a gwaith ymchwil ychwanegol, er enghraifft, ar fapiau Arolwg Ordnans Hanesyddol, ddatrys unrhyw amwysedd er mwyn eich helpu i ddeall pob rhan o'r parc neu'r ardd hanesyddol.

**2.3.4 Mynedfeydd a Llwybrau**
Fel arfer, trefnir mynedfeydd a llwybrau mewn hierarchaeth, yn dibynnu ar eu defnydd a phwy oedd yn eu defnyddio. Yn aml, adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn eu dyluniad. Bydd gwahaniaethau hefyd yn dibynnu ar y math o safle a'r dyddiad y cafodd ei greu.

***Rheoli*** – Pryd bynnag y bo modd, dylech gadw llwybrau cylch hanesyddol ar agor. Bydd yr wybodaeth yn y cofnod yn y gofrestr a'r gwaith ymchwil o fapiau hanesyddol yn eich helpu i ddeall pa lwybrau sy'n bwysig. Yn ddelfrydol, dylech osgoi creu llwybrau ychwanegol sy'n isrannu parcdir neu'n newid y cynllun hanesyddol.

**2.3.5 Nodweddion Ffiniau Hanesyddol**
Mae nodweddion ffiniau hanesyddol yn ychwanegu at natur unigryw leol. Maent hefyd yn bwysig i gynllun hanesyddol a chymeriad hanesyddol eich parc a'ch gardd hanesyddol gofrestredig.

Gall ffiniau fod yn rhwystrau ffisegol a gweledol, fel waliau a gwrychoedd, neu gallant fod yn rhwystrau ffisegol nad ydynt yn amharu ar olygfeydd, fel rheiliau parcdir neu ffos glawdd.

Ymysg nodweddion ffiniau mae rheiliau ystadau, ffensys, ffiniau caeau a chloddwaith. Gallant ffurfio ffin o amgylch eich safle cofrestredig yn ogystal ag amgáu gofodau oddi mewn iddynt, fel gerddi muriog. Gall fod gwerth uchel o ran bioamrywiaeth iddynt hefyd.

Yn ogystal â chreu rhwystr, mae plannu planhigion ar hyn y perimedr hefyd yn rhoi cysgod a gwerth addurniadol.

***Rheoli*** – Dylech gadw ac adnewyddu nodweddion ffiniau hanesyddol gan ddefnyddio deunyddiau a dulliau traddodiadol lle y bo modd. Lle y bo'n bosibl, dylid osgoi ychwanegu ffiniau parhaol mewn parcdir agored am eu bod yn darnio'r dirwedd yn ffisegol ac yn weledol, ac yn newid y cynllun hanesyddol.

Mae hefyd yn bwysig ystyried swyddogaeth y ffin. Er enghraifft, diben gardd furiog yw amgáu gofod agored a ddefnyddir yn draddodiadol at ddibenion garddwriaethol. Yn aml, ystyrir bod gerddi muriog, y mae eu defnydd garddwriaethol wedi dod i ben, yn lleoliadau deniadol ar gyfer datblygiad preswyl newydd, ond rhaid cymryd gofal i barchu'r defnydd hanesyddol neu'r gofod agored a'i leoliad. Nid oes rhaid i'r broses o ddod o hyd i ddefnydd cynaliadwy ar gyfer gardd furiog olygu bod yn rhaid datblygu.

Mae'n syniad da cadw a chynnal y planhigion ar hyd y perimedr gan ddefnyddio rhywogaethau sy'n cyd-fynd â chymeriad hanesyddol y safle.

Er y dylai nodweddion ffiniau fod yn amlwg, gall gwybodaeth yn y cofnod sydd ar y gofrestr neu ymchwil i fapiau hanesyddol eich helpu i ddeall eu harwyddocâd. Os bydd nodweddion ffiniau yn gofrestredig neu'n rhestredig, efallai y bydd angen ichi gael caniatâd heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig er mwyn gwneud gwaith atgyweirio a gwaith arall.

**2.3.6 Strwythurau Adeiledig**

Gall strwythurau adeiledig mewn parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig amrywio'n fawr a gall fod gwahaniaethau mawr hefyd o ran faint ohonynt sydd wedi goroesi. Cofiwch fod modd gwarchod strwythurau drwy eu dynodi'n henebion cofrestredig neu'n adeiladau rhestredig, neu'n strwythurau sydd mewn cwrtil adeilad rhestredig.

Mae'r rhestr isod yn amlinellu'r prif fathau o strwythur adeiledig y gallwch ddisgwyl eu gweld mewn mathau gwahanol o barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Nid yw'r rhestr yn gyflawn ac mae llawer o safleoedd yn cynnwys nifer o'r strwythurau hyn sy'n adlewyrchu datblygiad hanesyddol y parc neu'r ardd:

- parciau canoloesol — tystiolaeth o ffiniau parc ar ffurf cloddiau a ffosydd, waliau cerrig, clostiroedd, cyfadeiladau porthordai parciau, ysguboriau, cysgodfannau, pyllau, cwningaroedd.

- parciau a gerddi ffurfiol — waliau, terasau, llwybrau, deildai, hafdai, gwylfeydd, logia, cerfluniau, deialau haul, ffowntenni a nodweddion dŵr eraill a systemau rheoli dŵr cysylltiedig.

- parciau wedi'u tirweddu — stablau ac adeiladau gwasanaethau eraill sy'n gwasanaethu'r ystad, adeiladau fferm, porthordai wrth fynedfeydd, rhewdai, cytiau cŵn, ogofdai, ffugadeiladau, henebion, pontydd, nodweddion dŵr a systemau rheoli dŵr cysylltiedig, tai cychod a baddondai.

- gerddi muriog — mannau agored wedi'u hamgáu gan waliau terfyn ac sydd â gwahanfuriau mewnol yn aml ac y gall fod gwres yn rhai ohonynt, tai garddwyr, cytiau, tai gwydr, cytiau cefn, fframiau, tai madarch, boncyffion gwenyn, llwybrau a ffynonellau dŵr fel ffynhonnau neu byllau.

- parciau cyhoeddus — porthordai mynedfeydd, rheiliau terfyn, cysgodfannau, ystafelloedd gwydr, bandstandiau, pontydd, ffowntenni yfed, tai cychod, cerfluniau, cofebion rhyfel, henebion a ffowntenni.

- mynwentydd — porthordai wrth fynedfeydd, gatiau mynediad a waliau neu reiliau terfyn, capeli, cofebion, cerfluniau a cherrig beddi.

- ysbytai a gwallgofdai — porthordai wrth fynedfeydd, gatiau mynediad a waliau perimedr, adeiladau ysbytai, capeli, llwybrau a chysgodfannau.

***Rheoli*** – Yn aml, bydd strwythurau adeiledig yn agored i ddifrod, dadfeiliad ac esgeulustod. Mae'n bwysig gwneud gwaith rheoli a chynnal a chadw rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn para. Dylech geisio defnyddio deunyddiau a dulliau sy'n cydweddu â'r gwreiddiol ar gyfer unrhyw waith atgyweirio. Mae angen i unrhyw waith gael ei lywio gan ddealltwriaeth o'r strwythur hanesyddol a'r cyflwr. Fe'ch cynghorir i geisio cyngor gweithiwr proffesiynol cymwysedig a phrofiadol cyn atgyweirio strwythurau hanesyddol.

Os bydd strwythurau adeiledig yn gofrestredig neu'n rhestredig, efallai y bydd angen ichi gael caniatâd heneb gofrestredig neu ganiatâd adeilad rhestredig er mwyn gwneud gwaith atgyweirio a gwaith arall. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am wneud newidiadau i henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig yn *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru ac yn Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru.* Os yw eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig yn rhan o ardal gadwraeth, efallai y bydd angen ichi gael caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeilad.

**2.3.7 Nodweddion Dŵr**
Mae nodweddion dŵr yn rhan annatod o sawl parc a gardd hanesyddol. Gallant fod yn artiffisial neu'n naturiol, neu'n gyfuniad o'r ddau, ond beth bynnag y bo eu ffurf, gall nodweddion dŵr wella dyluniad parciau a gerddi mewn sawl ffordd, ac felly hefyd y profiad o ymweld â hwy.

Gall camlas fod yn ganolbwynt i gynllun ffurfiol, cymesurol; mae llyn mawr, llonydd yn creu llonyddwch ac yn gwella'r amgylchedd drwy ei adlewyrchiadau; gall rhaeadr gwyllt greu sŵn ac egni; ac mae ffowntenni addurniadol yn ychwanegu apêl weledol, symudiad a sŵn i ardd ffurfiol. Gall ardaloedd o ddŵr hefyd gynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden fel nofio a rhwyfo. A gall dŵr fod yn ddefnyddiol mewn gerddi cegin ac mewn rhai adeiladau ar yr ystad, fel melinau. Mae gan ddŵr sawl rhinwedd sy'n amrywio o rinweddau esthetig, symbolaidd a synhwyraidd i rinweddau iwtilitaraidd.

Yn ogystal â'u harwyddocâd hanesyddol ac archaeolegol, gall fod gwerth palaeoecolegol a bioamrywiaeth uchel i nodweddion dŵr, gan gynnwys

presenoldeb rhywogaethau prin ac sydd mewn perygl. I'r gwrthwyneb, gall nodweddion dŵr gynnwys rhywogaethau goresgynnol, sy'n niweidiol i'w cymeriad hanesyddol a gweledol, ac i werthoedd ecolegol.

Gall nodweddion dŵr gynnwys yr enghreifftiau canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r isod:

- parciau canoloesol — pyllau, pyllau pysgod a chyrsiau dŵr naturiol.

- parciau a gerddi ffurfiol — pyllau a chamlesi ffurfiol a geometrig, a ffowntenni.

- parciau wedi'u tirweddu — pyllau, llynnoedd, sgydiau, rhaeadrau, afonydd a nentydd.

- gerddi muriog — pyllau, ffynhonnau a systemau dyfrhau.

- parciau cyhoeddus — pyllau addurniadol, pyllau, llynnoedd a ffowntenni.

***Rheoli* –** Fel nodweddion hanesyddol eraill yn eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig, mae'n hanfodol deall arwyddocâd nodweddion dŵr a strwythurau rheoli dŵr cysylltiedig cyn mynd ati i'w newid. Efallai y gallwch ddod o hyd i wybodaeth am nodweddion dŵr hanesyddol ar fapiau o ystadau a mapiau cynnar yr Arolwg Ordnans, ac efallai y byddant i'w gweld mewn lluniau, cynlluniau neu ffotograffau hanesyddol o'r safle.

Gall nodweddion dŵr a systemau rheoli dŵr fod yn agored i ddifrod, dadfeiliad ac esgeulustod. Mae gwaith rheoli a chynnal a chadw rheolaidd yn bwysig er mwyn sicrhau eu bod yn para, er mwyn cynnal maint a ffurf, ac er mwyn cadw cymeriad hanesyddol.

Mae siltio, gollyngiadau a rhwystrau oll yn broblemau cyfarwydd. Mae mynd ati'n rheolaidd i glirio llystyfiant goresgynnol a llystyfiant sydd wedi syrthio yn arfer da a all helpu i atal problemau. Dylid cymryd gofal wrth ddadsiltio er mwyn sicrhau na ddifrodir leininau sy'n aml wedi'u gwneud o glai.

Gall da byw erydu neu gywasgu ymylon nodweddion dŵr sy'n effeithio'n andwyol ar eu strwythur a'u ffurf yn ogystal â'u lleoliad. Gall newid cyfundrefnau rheoli helpu i ddatrys y materion hyn.

Dylid defnyddio deunyddiau a dulliau sy'n cydweddu â'r gwreiddiol wrth wneud gwaith atgyweirio, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r strwythur hanesyddol a'i gyflwr. Dylech geisio cyngor gweithiwr proffesiynol â chymwysterau a phrofiad priodol cyn atgyweirio neu adnewyddu nodweddion dŵr hanesyddol yn eich parc a'ch gardd hanesyddol gofrestredig.

Os bydd nodweddion dŵr yn gofrestredig neu'n rhestredig, efallai y bydd angen ichi gael caniatâd heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig er mwyn gwneud gwaith atgyweirio a gwaith arall.

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor ar ecoleg a bioamrywiaeth nodweddion dŵr.

### 2.3.8 Plannu

Y brif elfen sy'n golygu bod parciau a gerddi hanesyddol yn wahanol i asedau hanesyddol eraill yw eu helfen fyw – y planhigion. Yn ôl eu natur, mae planhigion yn newid drwy'r amser gyda'r tymhorau ac wrth iddynt gyrraedd diwedd eu hoes naturiol. Efallai fod y nodweddion planedig yn eich parc neu'ch gardd hanesyddol yn rhan annatod o'u cynllun a'u strwythur hanesyddol, ond maent hefyd yn apelio i'r synhwyrau ac yn rhoi siâp, lliw a gwead i'r olygfa. Maent hefyd yn darparu cynefinoedd cyfoethog ac amrywiol ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae'n bwysig deall arwyddocâd yr elfennau planedig. Gall planhigion gynnwys ardaloedd o lawnt ffurfiol, porfa parcdir, borderi ffurfiol ac anffurfiol, tocwaith, llwyni, coed parcdir unigol, clystyrau o goed, arboreta, perllannau, coetir addurniadol, coetir brodorol, lleiniau cysgodol, a chynnyrch a dyfir mewn gerddi cegin. Efallai mai coed hynafol a hynod yw'r elfennau hynaf sydd wedi goroesi yn eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig. Yn aml, roeddent yn bodoli cyn i'r dirwedd gael ei gosod a'i hymgorffori yn y dyluniad.

Efallai y bydd yr hyn a blannwyd yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol, ond ni fydd yn gyfyngedig i’r isod:

- parciau canoloesol — porfeydd garw, coetiroedd hynafol, coed wedi eu tocio a choed sefydledig.

- parciau a gerddi ffurfiol — lloriau, terasau, borderi, llwyni, lonydd coed, cellïoedd, coetiroedd ffurfiol gyda llwybrau cerdded, llwybrau marchogaeth a fistâu echelog.

- parciau wedi’u tirweddu — coed parcdir unigol, clystyrau o goed, lleiniau a choetir terfyn, arboreta a lonydd coed.

- gerddi cegin muriog — cynnyrch gerddi cegin a pherllannau.

- parciau cyhoeddus — coed conifferaidd a chollddail unigol ledled y parc, ond hefyd rai sy'n diffinio'r ffin; lonydd coed, llwyni, borderi llwyni a blodau, gerddi rhosod, gerddi botaneg, carpedi o blanhigion, planhigion mewn tai gwydr ac ystafelloedd gwydr.

- mynwentydd — coed unigol a choed bytholwyrdd yn benodol, fel yw, gerddi coffa.

- ysbytai a gwallgofdai — lawntydd, coed, borderi blodau, llwyni, gerddi cegin a pherllannau.

***Rheoli*** – Dylech geisio cadw fframwaith hanesyddol yr hyn sydd wedi ei blannu yn eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig, er enghraifft,

patrwm porfa parcdir ac ardaloedd coediog. Gall plannu'r rhywogaethau anghywir neu yn y lleoliad anghywir wanhau a drysu'r dyluniad a fwriadwyd. Bydd cadw ardaloedd o barcdir agored ac osgoi planhigion amhriodol a datblygiadau yn helpu i gadw'r hyn sy'n arbennig am eich parc a'ch gardd hanesyddol.

Mae porfa parcdir, a borid yn hanesyddol, o werth gwych yn weledol, yn hanesyddol ac o ran bioamrywiaeth. Fodd bynnag, dros amser, efallai fod arfer amaethyddol wedi troi'r parcdir yn dir âr. Os bydd hyn wedi digwydd, dylech ystyried ei droi'n ôl i borfa sy’n cael ei phori, gan gadw at y defnydd a'r cymeriad hanesyddol. Mae hefyd yn syniad da peidio â rhannu parcdir agored yn israniadau, er enghraifft gyda gwrychoedd.

Mae lefelau stocio addas yn bwysig er mwyn sicrhau na chaiff parcdir hanesyddol ei danbori na'i orbori. Gall y ddau gael effaith andwyol ar y cymeriad hanesyddol a gweledol, a hefyd ar y gwerth ecolegol, gan gynnwys colli llinellau blaenbori nodweddiadol coed parcdir. Gall tanbori arwain at ledaeniad rhedyn a phrysgwydd mewn ardaloedd o barcdir agored. I'r gwrthwyneb, gall gorbori arwain at gywasgu pridd a/neu erydu, lefelau uwch o flaenbori a rhwbio rhisgl, lefelau uchel o faethynnau sy’n ganlyniad i dail a throeth da byw yn cronni, a cholli amrywiaeth rhywogaethau glaswelltir.

Mae ardaloedd o amgylch cafnau a ddefnyddir gan anifeiliaid i gysgodi neu i fwydo ac yfed yn agored i niwed. Mae nodweddion hanesyddol a choed parcdir yn arbennig o agored i niwed. Mae gwartheg modern yn tueddu i fod yn fwy ac yn drymach na bridiau traddodiadol, a gall hynny wneud pethau'n waeth.

Dylech osgoi defnyddio cemegau, fel plaladdwyr, gwrteithiau a chynhyrchion milfeddygol, yn enwedig o amgylch coed parcdir lle byddai’n hawdd niweidio gwreiddiau a ffwng mycorhisol. Mae ffyngau mycorhisol yn bwysig am fod cydberthynas symbiotig rhyngddynt a'r coed, sy'n galluogi'r coed i echdynnu maethynnau a dal dŵr. Mewn gwirionedd, mae'r ffwng yn darparu system wreiddiau eilaidd sy'n fwy effeithlon ac eang na system wreiddiau'r goeden ei hun.

Mae hefyd yn well osgoi aredig, agor ffosydd, storio deunyddiau, a chywasgu gan gerbydau a cherddwyr.

Ceisiwch gadw coed parcdir aeddfed a hynod, gan gynnwys coed sy’n marw neu goed marw sy'n dal i sefyll, oherwydd eu gwerth uchel yn hanesyddol, yn ddiwylliannol ac o ran bioamrywiaeth. Gellir gadael coed marw sydd wedi cwympo lle y maent fel cynefinoedd gwerthfawr i fywyd gwyllt, ond dylech ystyried yr effaith weledol y gall hyn ei chael ar y parcdir a chyfyngu ar eu niferoedd a'u lleoliadau fel y bo'n briodol. Ceir rhagor o wybodaeth am goed hynod a hynafol gan Coed Cadw.

Os bydd angen trin coed — ar ôl cael cyngor arbenigol gan dyfwyr coed cymwys — dylid gwneud cyn lleied â phosibl, ond digon i estyn oes y goeden neu sicrhau iechyd a diogelwch y cyhoedd. Dim ond pan fetho popeth arall y

dylid ystyried cwympo coed. Mae'n bosibl y gallai'r bôn aildyfu a dylid ei adael lle y mae fel cofnod o'r goeden a gollwyd a hefyd fel cynefin i fywyd gwyllt. Gellir cyfrif y cylchoedd ar fôn coeden aeddfed er mwyn amcangyfrif ei hoedran.

Gall deall arwyddocâd y planhigion yn eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig eich helpu i reoli'r hyn a blannwyd eisoes a'r hyn a blennir o'r newydd. Dylai'r dewis o rywogaethau coed fod yn briodol i gymeriad hanesyddol y safle a, lle y bo modd, dylai gael ei dyfu o stoc bresennol yr ystad. Mae cyfleoedd hefyd i dyfu hen fathau, gan gynnwys ffrwythau a llysiau (gweler adran 1.6.3).

### 2.3.9 Dogfennu a Chofnodi

Mae'n bwysig dogfennu a dysgu o'r penderfyniadau a wnewch wrth wneud newidiadau i'ch parc neu'ch gardd hanesyddol sy'n gofrestredig.

Pan gaiff rhan o nodwedd neu'r nodwedd gyfan ei cholli neu ei haddasu, mae'n arfer da cofnodi a dadansoddi'r nodweddion hynny ac ymchwilio iddynt wrth iddynt gael eu datgelu tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo.

Dylid cadw'r wybodaeth hon, ynghyd ag unrhyw waith ymchwil hanesyddol a gasglwyd gennych, a rhoi copi yn eich cofnod amgylcheddol hanesyddol rhanbarthol ac yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sef archif genedlaethol Cymru sy'n cel ei chadw gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae Cadw hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth hanesyddol ychwanegol am safleoedd ar y gofrestr.

## 3. Newid yn yr Hinsawdd

Mae model newid yn yr hinsawdd Swyddfa Dywydd y DU (UKCP09) ar gyfer Cymru yn rhagweld y bydd y cynnydd yn y tymheredd byd-eang yn arwain at tymheredd cymedrig uwch drwy gydol y flwyddyn gyda hafau sychach neu wlypach a phoethach, gaeafau gwlypach a chynhesach a thywydd mwy eithafol fel llifogydd a sychder. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i asesu effaith bosibl y newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, yn cynnwys parciau a gerddi hanesyddol. Mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol wedi llunio *Newid yn yr Hinsawdd ac Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Crynodeb o Effeithiau Posibl* a chaiff yr wybodaeth ddiweddaraf ei chyhoeddi ar wefan Cadw. Gall parciau a gerddi hanesyddol sy'n enwog am eu rhywogaethau egsotig fod ar eu hennill oherwydd bod rhai planhigion sy'n hoffi gwres yn gallu ffynnu mewn amodau cynhesach. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ichi addasu'r ffordd yr ydych yn mynd ati i ofalu am blanhigion, i ddewis planhigion ac i reoli tai gwydr. Gall tymheredd uwch hefyd arwain at fwy o risg o dân mewn llystyfiant sydd wedi sychu

Mewn mannau eraill, efallai y bydd angen ichi ystyried strategaethau addasol wrth i goed, planhigion a strwythurau adeiledig gael eu colli neu eu difrodi oherwydd stormydd a llifogydd amlach. Bydd hefyd angen storio dŵr dros y gaeaf i'w ddefnyddio yn ystod misoedd sychach yr haf.

Bydd tymereddau tymhorol uwch yn helpu plâu a chlefydau gardd i oroesi, a all newid cymeriad parciau a gerddi hanesyddol yn uniongyrchol ac o ganlyniad i'r ffaith y bydd coed a phlanhigion yn diflannu. Efallai y bydd angen ichi ystyried cyflwyno rhywogaethau planhigion a choed sydd ag ymwrthedd gwell.

Bydd rhagor o gyngor yn cael ei baratoi ar addasu er mwyn ymdopi ag effaith y newid yn yr hinsawdd ar bob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol.

## 4. Cyfleoedd Eraill

### 4.1 Cyllid

Efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am gymorth grant er mwyn eich helpu i gynnal a gwella eich parc neu'ch gardd hanesyddol. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnig grantiau ar gyfer prosiectau sydd â gwerth cymunedol ac mae Cynllun Grantiau Bach Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru yn cynnig cyllid tuag at gost gwaith cadwraeth, arolygon a phrosiectau sy'n hyrwyddo mynediad, diddordeb a mwynhad y cyhoedd

Weithiau, gallwn gynnig cymorth grant ar gyfer gwaith atgyweirio i henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig.

Os byddwch wedi cofrestru ar gynllun rheoli tir cynaliadwy, fel Glastir, efallai y bydd eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig yn gymwys i gael cymorth grant.

### 4.2 Addysg a Sgiliau Treftadaeth

Mae parciau a gerddi hanesyddol yn lleoliad difyr ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ac mae hynny’n cynnig buddiannau addysgol, cymdeithasol a chorfforol. Maent yn cynnig cyfleoedd trawsgwricwlaidd i ddefnyddio'r amgylcheddau hanesyddol a naturiol er mwyn dysgu am yr ardal leol, a gallant gynnwys plant, rhieni a chymunedau lleol.

Gall cymunedau lleol hefyd gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol sy'n amrywio o gynnal a chadw planhigion a thir i waith ymchwil a dadansoddi hanesyddol.

Mae angen sgiliau traddodiadol i gynnal a chadw llawer o'r elfennau mewn parciau a gerddi hanesyddol, felly efallai y bydd cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau prentisiaeth, drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri er enghraifft, er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn meddu ar arbenigedd ym maes treftadaeth.

### 4.3 Mynediad i'r Cyhoedd

Mae llawer o barciau a gerddi hanesyddol ar gael i'w darganfod a'u mwynhau, a galant helpu i wella iechyd a lles corfforol a meddyliol pobl. Mae parciau a gerddi yn ysgogi'r synhwyrau ac yn cynnig lle i hamddena a gwneud ymarfer corff, a gall plannu a thyfu feithrin hunanhyder a rhoi ymdeimlad o gyflawni.

Er bod llawer o'r safleoedd ar y gofrestr ar agor neu ar gael i'r cyhoedd, nid yw cofrestru yn rhoi unrhyw hawl i'r cyhoedd gael mynediad i dir preifat. Mae rhai safleoedd ar agor yn achlysurol drwy gynlluniau fel y Cynllun Gerddi Cenedlaethol neu'n cynllun Drysau Agored, sy'n galluogi ymwelwyr i fwynhau a gwerthfawrogi gwerth parciau a gerddi hanesyddol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn agor eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig am benwythnos bob blwyddyn fel rhan o'n cynllun Drysau Agored, cysylltwch â ni yn cadw@cymru.gsi.gov.uk

Cafodd rhai parciau neu erddi hanesyddol eu dylunio fel amwynderau cyhoeddus a gall gwrthdaro godi rhwng eu defnydd modern fel cyfleusterau hamdden a'u diben gwreiddiol fel gerddi cyhoeddus, sydd yn aml yn enwog am eu planhigion. Dylai rheolwyr geisio cydbwyso arwyddocâd hanesyddol ag anghenion cyfoes o ran amwynderau.

Mae hefyd yn bwysig ystyried nifer yr ymwelwyr y gall safleoedd eu derbyn a chyfyngu'n briodol ar y niferoedd hynny. Efallai y bydd angen newidiadau dros dro a newidiadau y gellir eu dadwneud, fel cyflwyno matiau neu ffensys gwarchodol, er mwyn rheoli'r cylchrediad o ymwelwyr ac atal difrod i rai elfennau hanesyddol.

## Atodiad: Dod o Hyd i Wybodaeth am eich Parc neu'ch Gardd Hanesyddol Gofrestredig

Gall gwaith ymchwil hanesyddol eich helpu i ddeall eich parc neu'ch gardd hanesyddol gofrestredig a datblygiad y parc neu'r ardd dros amser. Bydd hyn yn eich helpu i nodi beth sy'n arwyddocaol cyn ichi ystyried gwneud unrhyw newidiadau.

Mae'r cofnod yn y gofrestr – sydd ar gael oddi wrth Cadw – yn rhoi gwybodaeth am hanes a datblygiad safle, ynghyd â disgrifiad o'r safle adeg ei gofrestru.

Efallai y bydd rhagor o wybodaeth am y safle a'i nodweddion hanesyddol ar gael gan:

- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- cofnodion amgylchedd hanesyddol rhanbarthol
- swyddfa archifau leol neu archifau preifat teuluoedd
- Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru.

Gall mapiau ystadau, mapiau'r degwm a mapiau hanesyddol yr Arolwg Ordnans roi manylion am gynllun hanesyddol a defnydd o dir. Efallai y bydd cynlluniau a glasbrintiau manwl ar gael ar gyfer adeiladau unigol neu strwythurau mewn gerddi a pharciau.

Ymysg y ffynonellau gwybodaeth eraill mae llenyddiaeth, barddoniaeth, paentiadau ac ysgythriadau o’r cyfnod dan sylw, dyddiaduron preifat a llythyrau, cardiau post a ffotograffau, cofnodion cyfrifon a gwariant, catalogau gwerthiannau ac atgofion a phrofiadau pobl.

# Rhagor o Wybodaeth

## Parciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru

Mae Cof Cymru — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru yn cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchodedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Bydd parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn cael eu cynnwys yn Cof Cymru yn ystod 2017.

Mae'r cofrestrau cyhoeddedig canlynol yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am bob parc a gardd hanesyddol gofrestredig yng Nghymru.

Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Gwent. (*Caerdydd, 1994).
Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi —Clwyd* (Caerdydd, 1995).
Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn* (Caerdydd, 1998).
Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Powys* (Caerdydd, 1999).
Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Morgannwg* (Caerdydd, 2000).
Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro* (Caerdydd, 2002).
Cadw/ICOMOS, *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi — Cofnodion Ychwanegol a Diwygiedig* (Caerdydd, 2007).

**Ffynonellau Gwybodaeth Ar-lein**
Gellir defnyddio'r ffynonellau canlynol i ddod o hyd i wybodaeth am barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ac anghofrestredig yng Nghymru.

Archifau Cymru — Mae mynediad ar-lein i'r catalog yn eich galluogi, drwy un chwiliad yn unig, i gael gwybodaeth am fwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol yn yr 21 o archifau a geir yng Nghymru.

Archwilio — Mynediad ar-lein i gofnodion amgylcheddol hanesyddol ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

Coflein — Y mynegai ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.

Cymru Hanesyddol — Y porth mapiau ar gyfer gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

LANDMAP — Yr adnodd sylfaenol ar-lein ar gyfer tirwedd a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyhoeddir setiau data LANDMAP hefyd i'w lawrlwytho er mwyn eu defnyddio mewn System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ar http://lle.wales.gov.uk/Catalogue?lang=cy

Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Methodoleg LANDMAP: Canllawiau ar gyfer Cymru. Tirwedd Hanesyddol
Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Methodoleg LANDMAP: Canllawiau ar gyfer Cymru. Tirwedd Diwylliannol

Llyfrgell Genedlaethol Cymru — mynediad ar-lein i amrywiaeth o gasgliadau gan gynnwys mapiau, lluniau a ffotograffau.

Parks & Gardens UK — adnodd ar-lein yw Parks & Gardens UK ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol, ac mae'n darparu gwybodaeth am barciau, gerddi a thirweddau dyluniedig yn y DU ac am yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o'u hyrwyddo, eu gwarchod a'u rheoli.

**Polisi a Chanllawiau Cynllunio**
*Polisi Cynllunio Cymru,* Pennod 6 – Yr Amgylchedd Hanesyddol
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

**Canllawiau Arferion Gorau**
*Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd, 2011
*Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi
*Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi
*Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi
*Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi
*Deall Rhestru yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi
*Deall Cofrestru yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

**Deunydd Darllen Ychwanegol**
*Ancient Tree Guide No.1: Trees and Farming*, Coed Cadw, 2005
*Ancient Tree Guide No.2: Trees in Historic Parks and Landscape Gardens,* Coed Cadw, 2008
*Ancient Tree Guide No.4: What are Ancient, Veteran and Other Trees of Special Interest?*
Coed Cadw, 2008
*Ancient Tree Guide No. 5: Trees and Climate Change*, Coed Cadw, 2008
*Newid yn yr Hinsawdd ac Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Crynodeb o Effeithiau Posibl*, Y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, 2012

*Conserving and Managing Trees and Woodlands in Scotland's Designed Landscapes*, Comisiwn Coedwigaeth yr Alban, 2011
*Moats, Ponds and Ornamental lakes in the Historic Environment*, English Heritage, 2011
D. Lambert, P. Goodchild a J. Roberts, *Parks and Gardens: A Researcher's Guide to Sources for Designed Landscapes*, Yr Ymddiriedolaeth Dylunio Tirweddau, 2006
*Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru,* Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS, Caerdydd, 1998
*Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru,* Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS, Caerdydd, 2001
Elisabeth Whittle, *The Historic Gardens of Wales,* Llyfrfa EM a Cadw, 1992
J. Watkins a T. Wright (gol), *The Management and Maintenance of Historic Parks, Gardens and Landscapes: The English Heritage Handbook*, 2007
*Veteran Trees, a Guide to Good Management*, Natural England, 2011

## Cysylltiadau

**Llywodraeth Cymru**
Cadw, Llywodraeth Cymru
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 336000
cadw@cymru.gsi.gov.uk
www.gov.wales/cadw

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU

Ffôn: 01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.cbhc.gov.uk

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.coflein.gov.uk/cy

Gallwch drefnu i ymweld â'r ystafell chwilio gyhoeddus yn Aberystwyth lle bydd y staff yn esbonio pa adnoddau sydd ar gael yn y Cofnod Henebion Cenedlaethol er mwyn ymchwilio i barciau a gerddi hanesyddol, gan gynnwys mapiau hanesyddol, lluniadau, ffotograffau a chofnodion arolygon.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
Cyfoeth Naturiol Cymru
d/o y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid
Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
http://naturalresources.wales/?lang=cy

Am wybodaeth lefel uchel am y canlynol:

- dynodiadau cadwraeth natur a all effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig
- rhywogaethau a warchodir
- cymeriad tirwedd a all fod yn elfen bwysig o leoliad parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig
- gwybodaeth a chanllawiau am goed

**Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru**
The Bothy, Aberglasne, Llangathen, SA32 8QH
Ffôn: 01558 668998
admin@whgt.org.uk
www.whgt.org.uk

Sefydliad cadwraeth a threftadaeth yw Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru a sefydlwyd i warchod a chadw tirweddau gerddi a pharciau hanesyddol Cymru. Ymysg ei nodau mae hyrwyddo'r gwaith o adfer a chadw parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru ac ymchwilio i hanes gerddi yng Nghymru a chofnodi'r hanes hwnnw.

**The Gardens Trust**
The Garden History Society, 70 Cowcross Street, London EC1M 6EJ
Ffôn: 020 7608 2409
enquiries@gardenhistorysociety.org
www.gardenhistorysociety.org

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU
Ffôn 01970 632 800
gofyn@llgc.org.uk
www.llgc.org.ik

**Awdurdodau Cynllunio Lleol**
Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

**Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru**
Gallwch gysylltu â phedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru i gael gwybodaeth a chyngor am eich cofnod amgylcheddol hanesyddol rhanbarthol.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan, Y Trallwng SY21 7RR
Ffôn: 01938 553670
trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Corner House, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE
Ffôn: 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

**Y Gronfa Loteri Fawr**
http://www.hlf.org.uk/

**Y Cynllun Gerddi Cenedlaethol**
www.ngs.org.uk

**Drysau Agored**
www.cadw.gov.cymru/drysauagored